Mae'n ofynnol trwy gyfraith i Wasanaeth Tân ac Achub De Cymru amddiffyn y cyllid cyhoeddus y mae'n ei weinyddu. Gall rannu gwybodaeth sy'n cael ei rhoi iddo gyda chyrff eraill sy'n gyfrifol am archwilio neu weinyddu cyllid cyhoeddus, er mwyn atal a chanfod twyll.

Mae Archwilydd Cyffredinol Cymru sy'n penodi'r archwilydd i archwilio cyfrifon yr awdurdod hwn. Ef hefyd sy'n gyfrifol am gynnal ymarferiadau cydweddu data.

Mae cydweddu data yn cynnwys cymharu cofnodion cyfrifiadurol sy'n cael eu dal gan un sefydliad yn erbyn cofnodion cyfrifiadurol sy'n cael eu dal gan yr un sefydliad neu gan sefydliad arall. Gwybodaeth bersonol ydyw fel arfer. Mae cydweddu data cyfrifiadurol yn ffordd o ganfod ceisiadau a thaliadau twyllodrus. Os caiff data cydweddol ei ganfod mae'n nodi bod anghysondeb, sy'n gofyn am ymchwiliad pellach. Ni ellir tybio os oes twyll, gwall neu unrhyw esboniad arall hyd nes bod ymchwiliad wedi'i gynnal.

Ar hyn o bryd, mae'r Archwilydd Cyffredinol yn gofyn i ni gymryd rhan yn eu menter gwrth dwyll. Ar gyfer y fenter hon, rydym yn darparu manylion gweithwyr at y diben o'u cymharu gyda manylion a ddarparwyd gan gyrff cyhoeddus eraill. Bydd hyn yn sicrhau nad oes taliadau'n cael eu gwneud i bobl nad oes hawl ganddynt i'w derbyn bellach, a bod incwm o'r Gwasanaeth Tân yn cael ei ddatgan wrth wneud cais am fudd-daliadau tai. Mae'r ymarferiadau hyn felly yn helpu sicrhau'r defnydd gorau o gyllid cyhoeddus.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn gofyn i'r awdurdod hwn ddarparu'r wybodaeth y mae'n ei dal at y diben hwn. Mae gofyn i ni ddarparu setiau penodol o ddata i'r Archwilydd Cyffredinol ar gyfer eu cydweddu ar gyfer pob ymarfer, ac mae'r rhain wedi'u nodi yn llawlyfrau'r Archwilydd Cyffredinol, sydd i'w gweld ar http://www.wao.gov.uk/whatwedo/1252.asp.

Mae'r defnydd o ddata gan yr Archwilydd Cyffredinol mewn ymarfer cydweddu data yn cael ei gwblhau gydag awdurdod statudol o dan ei bwerau yn Rhan 3A Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 1998. Nid yw'n gofyn am ganiatâd yr unigolion o dan sylw yn unol â Deddf Diogelu Data 1998.

Mae cydweddu data gan yr Archwilydd Cyffredinol yn destun Cod Ymarfer. Mae hwn i'w weld ar http://www.wao.gov.uk/whatwedo/codeofauditandinspectionpractice.asp

Am ragor o wybodaeth ar bwerau cyfreithiol yr Archwilydd Cyffredinol a'r rhesymau pam ei fod yn cydweddu gwybodaeth benodol, gweler:

http://www.wao.gov.uk/whatwedo/2060.asp

Neu cysylltwch â: Katrina Febry, NFI, Cydlynydd, Swyddfa Archwilio Cymru, 24 Cathedral Road, Caerdydd CF11 9LJ, 029 2032 0616 neu e-bostio infoofficer@wales.gov.uk. Rhif ffôn: 029 2032 0616

Swyddog Cyswllt ar gyfer Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru: Mrs Clare Smith, Rheolwr Cyflogres ar 01443 232078.